



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Mae Prifysgol Bangor, Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, gyda chefnogaeth Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC (DTP Cymru), yn gwahodd ceisiadau ar gyfer astudiaethau PhD, gyda'r posibilrwydd o ddyfarnu Ysgoloriaeth DTP ESRC a ariannir yn llawn, a fydd ar gael i gychwyn ym mis Hydref 2022. Rydym yn disgwyl dyfarnu ysgoloriaethau doethurol yn y maes hyn: Dwyieithrwydd

Rydym yn cynnig goruchwyliaeth gan academyddion o fri rhyngwladol sy'n gallu eich cefnogi a'ch tywys trwy eich ymchwil mewn Dwyieithrwydd. Mae gennym gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf a labordai, a ni yw'r unig uned academaidd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnig MA a PhD mewn Dwyieithrwydd.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr eithriadol sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail uchel, neu radd Meistr briodol. Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chydarddoldeb ar bob lefel ac yn annog ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned, ni waeth beth fo'u hoedran, anabled, rhyw, hunaniaeth ryweddol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Yn unol â'n hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chynyddu recriwtio gan grwpiau a dangynrychiolir, mae croeso ac anogaeth benodol i geisiadau gan ymgeiswyr Du Prydeinig, Asiaidd Prydeinig, ethnigrwydd lleiafrifol Prydeinig a hil gymysg Prydain. Rydym yn croesawu ceisiadau i astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser, ac mae ysgoloriaethau ar gael fel naill ai '1+3' (h.y. un flwyddyn gyfan o radd Meistr hyfforddiant ymchwil ac yna astudiaeth ddoethurol amser llawn neu gymhwyster cyfatebol rhan amser) neu '+3' (h.y. tair blynedd o astudiaeth ddoethurol amser llawn neu gymhwyster cyfatebol rhan amser) yn dibynnu ar anghenion yr ymgeisydd.

Croesewir ceisiadau erbyn 12:00 hanner dydd, 4 Chwefror 2022.

Rhagor o fanylion am ysgoloriaethau Cyffredinol DTP ESRC Cymru: testun a argymhellir

"Mae'r ysgoloriaethau hyn yn ddyfarniadau 'agored'. Dylai ymgeiswyr ystyried mynd at ddarpar oruchwylwr [cyn](#) cyflwyno eu cais er mwyn cadarnhau bod capasiti goruchwyllo priodol ar gael o fewn y Brifysgol ac er mwyn trafod eu cais drafft. Ceir gwybodaeth am ddiddordebau ymchwil ein staff ar we-dudalennau:

[Dr Jessica Clapham](#) Darlithydd mewn TEFL

[Dr Athanasia Papastergiou](#) Darlithydd mewn Ieithyddiaeth

[Dr Eirini Sanoudaki](#) Uwch Ddarlithydd mewn leithyddiaeth (Dwyieithrwydd)

[Dr Christopher Shank](#) Uwch Ddarlithydd mewn leithyddiaeth

[Dr Marco Tamburelli](#) Darllenydd mewn Dwyieithrwydd

[Prof Thora Tenbrink](#) Darllenydd mewn leithyddiaeth Wybyddol

[Dr Alan Wallington](#) Darlithydd mewn leithyddiaeth

[Dr Peredur Webb-Davies](#) Uwch Ddarlithydd mewn leithyddiaeth (Dwyieithrwydd)

Ceir disgrifiadau byrion o bob llwybr achrededig ar wefan DTP ESRC Cymru.

YR HYN Y BYDD YR YSGOLORIAETH YN EI GWMPASU

Bydd Dyfarniadau Ysgoloriaeth yn dechrau ym mis Hydref 2022 ac yn talu am eich ffioedd dysgu yn ogystal â chynnig grant cynhaliadaeth (ar hyn o bryd £15,609 y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr llawn amser 2021/22, a bydd y swm hwn yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn); ac yn cynnwys mynediad at Grant Cymorth Hyfforddiant Ymchwil (RTSG) ychwanegol, er y gallai elfen o'r gronfa hon gael ei 'chronni' fel bod angen ceisiadau ar wahân o 2022 ymlaen. Mae cyfleoedd a manteision eraill ar gael i ddeiliaid ysgoloriaeth, gan gynnwys lwfans gwaith maes tramor (os yw'n berthnasol), cyfleoedd am interniaeth, ymweliadau â sefydliadau tramor a grantiau bychain eraill.

PWY SY'N GYMWYS

Mae ysgoloriaethau ESRC yn gystadleuol iawn, a dylai ymgeiswyr feddu ar gefndir academiaidd rhagorol yn y gwyddorau cymdeithasol, gyda gradd dosbarth cyntaf neu ail ddsbarth uchel; ystyrir ymgeiswyr sy'n meddu ar radd Meistr mewn hyfforddiant ymchwil (neu gefndir cyfatebol ym maes hyfforddiant ymchwil) ar gyfer dyfarniad +3. Mae ysgoloriaethau DTP Cymru ar gael i fyfyrwyr cartref a rhyngwladol. Mae ysgoloriaethau DTP Cymru ar gael i fyfyrwyr cartref a rhyngwladol (gan gynnwys yr UE a'r AEE). Bydd pob ymgeisydd yn gymwys i gael dyfarniad llawn sy'n cynnwys cyflog cynnal a chadw a thalu ffioedd dysgu ar gyfradd sefydliad ymchwil y DU. Rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion cymhwysedd yr ysgoloriaeth. I gael rhagor o fanylion ewch i wefan UKRI. Bydd ymgeiswyr myfyrwyr rhyngwladol llwyddiannus yn derbyn efrydiaeth DTP Cymru a ariennir yn llawn ac ni chodir y gwahaniaeth ffioedd arnynt rhwng cyfradd y DU a chyfradd rhyngwladol.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

1+3 NEU +3?

Mae dyfarniadau ar gael ar sail 1+3 neu +3. Mae ysgoloriaeth 1+3 yn cynnig cyllid am bedair blynedd (neu sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser), gan gwblhau Gradd Meistr hyfforddiant ymchwil yn y flwyddyn gyntaf, ac yna 3 blynedd o gyllid ymchwil ar gyfer PhD. Mae ysgoloriaeth +3 yn darparu cyllid ar gyfer tair blynedd yr astudiaethau ymchwil PhD yn unig (neu gyfnod sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser).

ASESU

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 12.00 hanner dydd, ddydd Gwener 4 Chwefror 2022. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael gwahoddiad i gyfweiliad, a disgwylir cynnal y cyfweiliadau ddiwedd Chwefror/dechrau Mawrth 2022. Ar ôl y cyfweiliad, caiff rhestr fer derfynol o ymgeiswyr ei chyflwyno i Banel a gynullir gan Grŵp Rheoli DTP ESRC Cymru i wneud penderfyniad terfynol ynghylch pwy y dylid dyfarnu ysgoloriaethau iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion gall ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl ymateb erbyn dechrau mis Ebrill 2022.

SUT MAE CYFLWYNO CAIS

Anfonwch ffurflen gais **wedi'i llenwi** ar gyfer eich derbyn i astudiaethau doethurol ym Mhrifysgol Bangor: i'w chyflwyno i <https://www.bangor.ac.uk/cy/study/postgraduate-research/apply> erbyn y dyddiad cau sef 12.00 ganol dydd, 4 Chwefror 2022. Ni dderbynnir ceisiadau anghyflawn neu rai a ddaw i law ar ôl yr amser a bennwyd.

Rhaid i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:

1. Llythyr eglurhaol: Dylid ei gyfeirio at eich goruchwyliwr. Rhaid iddo nodi eich rhesymau a'ch ysgogiad dros wneud cais i astudio ym Mhrifysgol Bangor, a'r llwybr Dwyieithrwydd; eich dealltwriaeth a'ch disgwyliadau o astudiaeth ddoethurol; a'ch diddordebau academaidd yn gyffredinol, ac yn benodol y rhai sy'n berthnasol i'ch ymchwil arfaethedig. Ni ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn hwy na dwy dudalen. Nodwch pa lwybr y byddwch yn ymgeisio amdano, yn ogystal â phu'n a ydych yn bwriadu ymgeisio ar sail +3 neu 1+3.

2. Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol: Lle bo hynny'n briodol, dylai hyn gynnwys tystiolaeth o Gymhwysedd Iaith Saesneg yn ogystal (gweler gofynion mynediad sefydliadol).



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

3. Geirdaon: Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno dau eirida academaidd i gefnogi'r cais. Rhaid i ymgeiswyr fynd at ganolwyr eu hunain a chynnwys y geirdaon ynghyd â'u cais.

4. Curriculum Vitae: Ni ddylai fod dros ddwy dudalen o hyd.

5. Cynnig Ymchwil: Ni ddylai'r cynnig fod yn hwy na *chyfanswm* o 1000 o eiriau, heb gynnwys cyfeiriadau llyfryddiaeth. Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r pum pennawd canlynol yn eich cynnig ymchwil:

- Teitl, amcanion a phwrpas yr ymchwil;
- Trosolwg byr o'r llenyddiaeth academaidd sy'n berthnasol i'ch maes;
- Dyluniad/dulliau arfaethedig;
- Cyfraniadau academaidd eich ymchwil.
- Cyfeiriadau Llyfryddiaethol

Dan y tab Rhaglenni, dewiswch 'Ysgoloriaethau a Hysbysebwyd ym Mhrifysgol Bangor...'
Yna dewiswch 'Efrydiaeth Gyffredinol DTP ESRC Cymru: Dwyieithrwydd', gan wneud yn siŵr eich bod yn nodi'r Dr Eirini Sanoudaki yn y blwch 'Cyswllt Academaidd'. Cliciwch Add.